

[illegible]

Croeso Welcome

NEFYN

Gefeillwyd gyda Twinned with
PUERTO MADRYN

Llanw Llŷn, Hydref 1998

BĀGAD BARGYFREITHIWR

Gan ROBYN LĒWIS (Robyn Llŷn)

EIN MADRYN NI: EU MADRYN HWY

Cyd-ddigwyddiad trawiadol, a dweud y lleiaf, oedd i *Stondin* Sam Tân a'm *Bagad* innau sôn am - a dyfynnu - y Barnwr Dewi Watkin Powell yn rhifyn Medi o'r *Llanw*. A dyfynnu'n union yr un geiriau yn ogystal! Sef: "*Oni bai am y gyfraith, fe fyddai'n ddrwg iawn arnom ni*". Ond aeth Samuel ymlaen i ychwanegu ei gnegwarth i'r perwyl: "...roedd hi'n amlwg ei fod o dan ormod o deimlad i ychwanegu "*ac mi fyddai'n dlotach o beth diawledig arna innau*". Mae'n dda fy mod i'n greadur goddefgar: neu fe fyddwn wedi medru sôn am ryw lyfrwerthwr a fedrai ddweud: "*Oni bai am lyfrau, fy fyddai'n ddrwg iawn arnom ni*". Wedyn, mi gawn innau ychwanegu fy ngwerth hatling amdano yntau, y lyfrwerthwr: "...roedd hi'n amlwg ei fod o dan ormod o deimlad i ychwanegu "*ac mi fyddai'n dlotach o beth diawledig arna innau*".' (Fedrwn i ddim maddau i honna: brysiat i ychwanegu 'mod i'n cytuno â phob gair - arall - a sgrifennodd Sam.)

Ond sôn am Borth Madryn oedd - ac yw - fy mwriad y mis yma. Gwn fod eraill wedi sôn, ac y sonnir yn y rhifyn hwn hefyd, am y Cyfarfod Gefeillio hynod lwyddiannus a hollol unigryw a gynhaliwyd yn Nefyn 'ma ddiwedd mis Medi. Bu naw cynrychiolydd o *Puerto Madryn* (Porth Madryn) yn bwrw bron i wythnos yn ein plith. Yr oedd pawb ohonom wedi mwynhau yn ddi-ben-draw, nes ein bod yn lliapa gan ludded. Fe af innau ar drywydd gwahanol, a chofio am hyn a'r llall a welais yn ystod y ddeudro (bum mlynedd ar wahan) y bŵm ym Mhorth Madryn. Cofio chwila am dŷ bwyta ar un achlysur, a dod o hyd i gaffi lle'r oedd un o bosteri ein Bwrdd Croeso ni, yn dangos llun o Gastell Dolbadarn,

Nant Peris, ar y wal! Dyna destun sgwrs ac ymgom yn syth bin.

Wedyn yr ogofâu a'r cerfluniau. Pan hwyliodd y *Mimosa* i'r bae dienw (bae Porth Madryn bellach), a glanio ar ymyl y Paith didrugaredd, bu raid i'r hen Gymry ddygymod â byw mewn ogofâu am rai misoedd. Dychmygwch! Nid am oes yr arth a'r blaidd yr wyf yn sôn, eithr am gyfnod parchus, het-silciog, capellog, grefyddgar oes yr hen Gwŷn Fic a'i staesi stiff: a Chymry alltud (Cymry gwâr hefyd, cofiwch chi) yn byw mewn ogofâu ym mhellteroedd byd. Sgrifennodd Cathrin Williams, y Borth - a fu o'r fath gymorth i'n gweithgareddau yn Nefyn (mawr ddiolch iddi) - gyfrol am y Wladfa, *Haul ac Awyr Las*, y dylech ei darllen ar bob cyfrif. Ynddi meddai: "I feddwl bod y Cymry wedi gadael gwlad hardd gyfannedd er mwyn dod i'r ffasiwn le".

Mae Cathrin yn un o'r bobl hynny yr aeth Gwladfa Patagonia o dan ei chroen. Yn ei chyfrol, mae'n amlwg yr aeth hithau, yn ei thro, o dan groen y Wladfa. Fel y digwydd, yn y Wladfa y cyfarfûm â hi gyntaf oll, pan oedd yn bwrw blwyddyn yno yn athrawes Gymraeg. Roedd hi'n byw mewn hen dŷ, ac meddai, am ei chartref blwyddyn: "Hen dŷ...heb fod yn hen iawn, dim ond yn ddigon hen i fod â holl anfanteision henaint heb ddim o'r pethau hynny sy'n gwneud hen dai yn ddiddorol".

Un o'r sawl anrheg a gyflwynodd Arglwydd Faer Porth Madryn, y Dr. Victoriano Salazar, i drigolion Nefyn (ar gyfer ei leoli yn yr ysgol, fel y lleolir y Memwrn Gefeillio, a Baner Ariannin, debyg), oedd copi bychan o un o brif gerfluniau enwog ei ddinas. Cerflun ydyw o Indiaid, a'i gefn at y Paith cras, didrugaredd, yn craffu allan i'r môr, o ble y daeth y *Mimosa* a gludai'r Cymry. Rhyw dair milltir i ffwrdd, gerllaw y ceiau, ceir cerflun arall, a enwir "*La Galesa*" [y Gymraes] sydd, y tro hwn, â'i

chefn at y môr, yn syllu i mewn tua'r Paith. Dadorchuddiwyd yr ail gerflun hwn yn 1965, pan oedd y Wladfa yn dathlu canmlwyddiant y Glanio, a phryd y bu dirprwyath yno dan arweiniad y diweddar Archdderwydd R. Bryn Williams (yr oedd y Dafydd Wigley ifanc yn aelod o'r fintai honno, gyda llaw).

Ar ochr bloc sylfaen Cerflun y Gymraes, gwelir bas-gerfiad o'r glanio ei hun, gyda'r Cymry i gyd yn syllu i mewn, tua'r tir, a thu cefn iddynt gwelir y *Mimosa*, hithau. Erbyn hyn mae'r *Mimosa* yn rhan amlwg o arfbais ddinesig Porth Madryn. Wrth lwc, mae yn fy meddiant ddarluniau o'r ddau gerflun ac o banel y bas-gerfiad, ac mae'n bleser cael Golygyddion y Llanw i'w hatgynhyrchu yma. Diolchwch na feddaf ddarlun naill ai o'r dysgedig Farnwr y cychwynnais fy nhruth ag ef, nac ychwaith o'r cyfaill Sam.



Porth Madryn: y Glanio
Bas-gerflun arwrol o'r Cymry cyntaf
yn glanio ym Mhorth Madryn. Yn y
cefnid, ar y dde, gwelir y *Mimosa*.

HAUL AC AWYR LAS [Blwyddyn draw
yn y Wladfa], gan Cathrin Williams. (Gwasg
Gee, 1994), Pris £5.50.

EDERN

Dydd Sul, Hydref 18, am 10 a 5.30

Pregethir gan
Y Parch. T. R. Jones

Dydd Llun Diolchgarwch:

Oedfa'r Bore am 10

Oedfa'r Prynhawn am 2

dan ofal aelodau'r Ysgol Sul

Oedfa'r Hwyr am 6

Disgwylir i'n gwasanaethu

Ei Anrhydedd Dewi Watkin Powell, Cricieth
(gynt o Gaerdydd)



Brodor o'r Paith yn syllu
allan i'r Cefnfor pan wél
long y Cymry yn dyneus.
[Nid yw'r dawy gofeb yma
gefn wrth gefn, fel yr
ymddengys uchod: mae tua
thair milltir rhyngddynt.]



La Galesa (Y Gymraes). Cerflun gosgeiddig
ohoni [a sylfaenwyd, meddir, ar Luned Fychan
Roberts de Gonzalez - disgynnydd i Michael D.
Jones], â'i chefn at y môr, yn syllu allan tua'r
Paith. Dadorchuddiwyd adeg y Canmlwyddiant
ym 1965, pryd yr aeth mintai o Gymry o'r 'Hen
Wlad' draw i gyd-ddathlu.

Labordy Deintyddol Dwyfor



UNRHYW BROBLEM
HEFO'CH DANNED
GOSOD FFONIWCN NI
AR :

01758 701078

Min y Don, Pencob, Pwllheli

Spick'n'Span
GWASANAETH GLANHAU
CARPEDI • DOOREFN
AC EICH HOLL ANGHENION GLANHAU
Ffôn: 01766 810779

Llanw Llŷn, Hydref 1998

Ymwelwyr o'r Wladfa

Rhyw haf digon dilewyrch fu hwn yn Llŷn fel ym mhobman arall drwy Gymru: mwy na digon o law, yr haul tu ôl i gwmwl a fusutors yn brin. Ond ganol Medi mi ddaeth criw bach o ymwelwyr i Nefyn o ben arall y byd, a'r haul efo nhw yn eu ciarpat bags, ac yn eu calonnau hefyd. Cyfeillion oedd y rhain o Batagonia. Maen nhw wedi mynd adref bellach, a'r tywydd wedi troi. Ac eto mae pob un a gafodd y ffrainc o'u cwarfod nhw, o ysgwyd llaw a sgwrsio, cyd-ganu a chyd-ddathlu yn ystod yr wythnos gwa y buon nhw yma, yn dal i deimlo'r c'nesrwydd a rannwyd ac i hymian "Calon Lân" dan eu gwynt...

Mae'r stori'n mynd yn ôl ymhellach na hynny, wrth gwrs. Ym mis Ebrill 1997 y daeth llythyr gyntaf o Borth Madryn, porthladd helaeth ar arfordir gorllewinol yr Ariannin, yn disgrifio'r frawdoliaeth arbennig sy'n bodoli rhwng trigolion y ddinas honno (ble glaniodd y *Mimosa* yn 1865, gan ddod â'r fintai o Gymry i'r Wladfa, a chan enwi'r porthladd ar enw Love Jones Parry o Gastell Madryn) a ninnau, breswylwyr tref Nefyn heddiw - neu "the city of Nefyn" - a dyfynnu eu disgrifiad optimistaidd nhw! Dyna pryd y cenhedlwyd y syniad o effeillio'r ddeule - y gefeillio cyntaf rhwng tref yn yr Hen Wlad a'r Wladfa. Ond digon hawdd cael syniad - mater arall ydi'i wireddu. Yn ystod y deunaw mis ers derbyn y llythyr hwnnw sefydlwyd pwyllgor o rai â diddordeb ac aeth John Griffiths, yr ysgrifennydd ac R. Emlyn Jones, y cadeirydd, ati fel dau wedi cael diwygiad i drefnu a gwneud paratodau manwl a graenus ar gyfer ymweliad maer Puerto Madryn, Dr. Victoriana Salazar a'i gyd-bererinion.

Roedd ffrindiau a fu draw yn y Wladfa wedi sôn llawer am y croeso a geid yno: te croeso, swper croeso, barbeciw croeso a hyd yn oed frecwest croeso! Ac ar noson gyntaf ymweliad bu gwledd o groeso i'r cyfeillion hwythau yng Nghapel Isa, Nefyn - y byrddau dan eu sang o ddanteithion, a phawb yn bwrw iddi i sgwrsio, ac yn achos y rhai ohonon nad oedd gennym ddim mwy o Sbaeneg na "Buenos Dias" a "Viva", i wenu ac ysgwyd llaw, a gwenu drachefn!

Ger murddun Castell Madryn roedden nhw fel Mwslemiaid wedi cyrraedd eu Mecca!

Roedd taith wedi'i threfnu o gwmpas Pen Llŷn dan arweiniad Mr. Ioan Mai Evans drannoeth a chan ei bod yn ddydd Mercher dyma gychwyn yn y farchnad ym Mhwlheli cyn ei throi hi am Oriel Glyn y Wedd ac yna Eglwys Llanbedrog, ble buont yn ymdroi yn y fynwent ble mae'r hen Syr Love ei hun wedi'i gladdu. Aed ymlaen oddi yno i Garreg Plas am ginio a dringo wedyn i ben Mynydd Mawr gan wrando wedi'u gwefreiddio ar dâp o Cynan yn adrodd yn ei lais soniarus, dwfn am y Swnt fel "môr o wydr". I lawr heibio i eglwys Sant Hywyn Aberdaron a dringo tua'r Rhiw, heibio i Graig Ewig a Bryncroes a Garn Fadryn ac i Gefn Amwlch ble cafwyd croeso bonheddig

gan Capten a Mrs. Wynne Finch. Ac er ei bod erbyn hynny'n hwyr brynhawn doedd fiw sôn am droi am adref cyn cael gwledd murddun Castell Madryn ei hun. Yno roedden nhw fel Mwslemiaid wedi cyrraedd eu Mecca!

Er bod yr amserlen yn llawn joc manteisiodd y cyfeillion ar bob ffatsh i ddilyn eu diddordebau y diwrnod hwnnw: Dr. Salazar, milfeddyg wrth ei alwedigaeth, a'r ffermwr Elmer Williams yn galw heibio i fferm Glanrhyd, Pentreuchaf i weld gwartheg duon Cymreig Brian Davies, gan wneud plans i roi cynnig ar fagu'r brîd ym Mhatagonia, a phawb fel un gŵr yn ei helcyd hi i Gardolbenmaen gefn nos i glywed Meibion Dwyfor yn ymarfer. Roedden nhw'n gwirionio ar ganu a gallai un ohonynt, sef Vali (Valerie James de Iriani), restru'r corau a fu'n ymweld â'r Wladfa yn ystod y saith a'r wythdegau'n un stribed hir heb gymaint â chymryd ei gwynt!

Bydd plant Ysgol Nefyn yn canu yn eu crysau melyn siriol yn siŵr o aros yn y cof.

Fore Iau bu'r criw ar ymweliad â Ffatri Laeth Rhydygwylt, a chael blas ar Lŷn ac Eifionydd yn llythrennol yno (ar grîm 'cracrys!') a chinio i'w gofio maes o law yng Nghaffi Meinir ar ddiwrnod pan oedd y Nant ar ei hardda'r rhwng môr ac awyr las. Gwelodd y trefnwyr am yr eilwaith y diwrnod hwnnw mai un peth ydi llunio amserlen resymol, effeithiol mewn pwyllgor, ond mai mater arall yw cael criw o ymwelwyr hamddenol sydd am weld pob rhyfeddod, sawru awyrgylch pob mangre, darllen pob arysgrif, tynnu llun pob golygfa a sgwrsio'n glên cfo pawb roedden nhw'n eu cwarfod i lynu wrth y gyfryw amserlen! Roedd y criw yn hwyr yn cyrraedd Ysgol Nefyn bnaun Iau (ac yn hwyrach wedyn yn cyrraedd Amgueddfa'r dre!) ond roedd drws agored yno 'run fath yn union, a thystiai sawl un o'r fintai y byddant yn cofio'r plant yn canu yn eu crysau melyn siriol pan fydd llawer o fanylion eraill y daith wedi hen fynd dros gof.

Pinael gweithgareddau'r wythnos oedd y Seremoni Gefeillio ar y nos Iau, a'r Ganolfan yn llawn hyd yr ymylon o bobl a phlant. Seliwyd y cytundeb drwy gyfnewid baneri'r Ariannin a Chymru, canu'r ddwy anthem genedlaethol, arwyddo'r Cytundeb Gefeillio ffurfiol a dadorchuddio plac ar fur y Ganolfan i goffâu'r achlysur. Cafwyd amryw gyfarchion gan gynnwys cennad gan Ron Davies o'r Swyddfa Gymreig, ac araith gan Robyn Lewis mewn Sbaeneg "A1" yn ôl barn yr ymwelwyr o Batagonia! Rhoddwyd yn anrhegion gan dref Nefyn garreg o Gastell Madryn ag arysgrif arni, baner y ddraig goch a sgrôl hardd (ac yn ddiweddarach darlun o giatws Castell Madryn trwy garedigrwydd Mrs. Griffiths, Tregwylan, Nefyn) a derbyniwyd gan y Maer a'i gymheiriaid drysorau arbennig gan gynnwys llun o Borthdinllaen wedi'i beintio ar femrwn gan artist o Batagonia, carreg a dynnwyd o'r tŷ cyntaf a adeiladodd y Cymry yno a cherflun o'r

Indiad Tehuelche'n syllu allan tua'r môr i groesawu'r ymfudwyr cyntaf o Gymru. Ar ddiwedd y seremoni croesawyd pob un o'r ymwelwyr i'r llwyfan a chyflwyno llwygaru yr un iddynt gan blant lleiaf Ysgol Nefyn, fel arwydd o gariad a chyfeillgarwch rhwng y ddwy dref a'r ddwy wlad.

Un o'r eitemau ar y rhaglen oedd "Anwesu Brawdol" ond doedd y Cadeirydd ddim yn rhy frwdfrydig am rhyw ffal-di-rals felly.

Chwerthin rŵan wrth gofio! Yng nghyfarfod olaf y Pwyllgor cyn i'r Patagoniaid gyrraedd aed trwy'r amserlen ar gyfer yr wythnos a threfn y seremoni. Un o'r eitemau clo ar y fersiwn drafft hwnnw o raglen y seremoni oedd "Anwesu Brawdol". Fodd bynnag doedd y Cadeirydd (a fyddai'n llywyddu ar y noson) ddim yn rhy frwdfrydig am ryw ffal-di-rals teimladwy felly, a phasiwyd i'w hepgor o'r rhaglen derfynol. Ond ar y noson, wrth gwrs, wedi'r gefeillio cofiadwy a chlywed Anna Georgina ar y delyn a'r plant yn morio canu, byddai gofyn i'r Maer a'i gyfeillion ymgadw rhag "anwesu brawdol" wedi bod fel gofyn i'r haul beidio codi! A chafwyd anwesu brawdol twymgalon a naturiol, cusanau a sychu ambell ddeigr yn hefyd.

Yn dilyn y seremoni cafwyd cinio dathlu yng Ngwesty Nanthoron, gyda'r wraig wadd Catherine Williams a fuasai'n gyfieithydd i ni gydol yr wythnos, yn siarad yn braf yn Gymraeg a Sbaeneg. Ond nid dyna ddiwedd y gwyliau chwaith. Gan fod bri mawr ar astudiaethau'n ymwneud â'r môr ym Mhuerto Madryn gwahoddiwyd y fintai i ymweld ag Adran Bioleg y Môr yng Ngholeg y Brifysgol, Bangor, ddydd Gwener ac yna i Lyfrgell y Coleg ble dangosodd Dr. Tomos Roberts iddynt ddogfennau'n adrodd hanes y *Mimosa* ynghyd â llythyrâu a anfonwyd yn ôl i Gymru gan rai o'r ymfudwyr cyntaf yn adrodd eu hanes. Digon naturiol wedyn oedd galw heibio i Gapel Engedi yng Nghaernarfon ble mae plac ar y wal i nodi fod rhai o'r ymfudwyr cyntaf ar y *Mimosa* wedi ymgynnull yno.

Swper croeso oedd yr amgylchiad olaf yng Nghapel Soar dan ofal cangen Nefyn o Ferched y Wawr. Ond roedd o'n swper ffarwel hefyd a rhyw ychydig o dristwch yn gymysg â'r llawenydd. Dyma'r clo ar weithgareddau'r gefeillio, roedd yr haf bach mihangel yn tynnu tua'r terfyn, a'r llong ar fin hwylio unwaith eto. Ond yn ystod yr wythnos fer a dreuliodd y cyfeillion yn Nefyn a'r cylch roedd rhyw asio arbennig wedi digwydd a hwnnw'n symbol o ddechrau nid diwedd. Bydd y wefr yn para, i bawb a fu â chysylltiad â'r digwyddiad, i bob copa walltog oedd yn y Ganolfan nos Iau, ac i'r cyfeillion o Batagonia hwythau, fel y tystient, dros byth. Ac mae 'na wahoddiad cynnes iawn yn ôl.

Meinir Pierce Jones

Llanw Llŷn, Tachwedd 1998

Sgwrs efo Vali

Sgwrs gyda Vali (Valerie James de Iriani) o Batagonia, un o'r fintai a ddaeth draw o Borth Madryn ar gyfer y Seremoni Gefellio yn Nefyn yn ddiweddar.



Valerie James de Iriani

Mae'ch Cymraeg glân chi gyda'r acen Sbaeneg yn fwisig i'r glust. Ai'r Gymraeg oedd eich iaith gynta chi?

Ie, roedd Mam a Dada'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd yn Nyffryn y Camwy ac felly roedd yn naturiol i ni'r plant ei siarad hi hefyd. Ac rydw inna' wedi siarad Cymraeg gyda fy mhiant, er bod rhai weithia' wedi meddwl 'mod i'n ddifaners yn gwneud hynny, gan nad oedd y gŵr yn siarad Cymraeg. Ond mae'r tri yn dal i siarad Cymraeg, chwarae teg iddyn nhw, a'r gŵr yn deall dipyn hefyd, sy'n ddefnyddiol pan fydd y Cymry, sef chi, yn dod i edrych amdanon ni!

Tipyn o gamp o gofio mai yn Buenos Aires y cafodd y plant eu magu!

Ie! Mae'r canol o'r tri, Ricardo (Dici, sydd yn y coleg amaethyddol yn Aberystwyth am flwyddyn ar hyn o bryd) wedi priodi merch o'r Gaiman, Sonia, ac wedi symud yn ôl yno, i ffermio a chadw siop, ac mae dau o blant ganddo, Camilla Elen a Philipe Glyn, yr wyrion bach. Ac maen nhw'n cael cyfle i ddysgu Cymraeg efo Angharad Morris, merch annwyl iawn o Lanelli sy'n treulio cyfnod yn y Wladfa fel athrawes. Mae'r iaith wedi cael adfywiad yn ddiweddar. Mae Eisteddfod y Plant newydd fod yn y Gaiman a llawer iawn o blant bach yn cymryd rhan, rhai yn Gymraeg a'r rhan fwyaf yn Sbaeneg, ond mae'r ysbryd Cymreig a'r traddodiad yn para.

Ai dyma'r tro cynta' i chi ddwad i Gymru?

Mi fues yng Nghymru o'r blaen bymtheng mlynedd yn ôl a dw i'n gweld bod pethau wedi gwella yma yng Nghymru ers hynny - yr arwyddion yn ddwyieithog, yn un peth.

Mi wn i nad ydi pethau wedi bod yn hawdd, ond ers talwm roedden ni'n meddwl eich bod chi'n gwneud popeth trwy'r Gymraeg yma! Ond y tro hwn roedd fel petai rhagluniaeth wedi trefnu i ni gael dod a gweld Pen Llŷn yn ei ogoniant - haul ac awyr las - tywydd braf y Wladfa.

Sut ddarlun neu argraff o Ben Llŷn rydych chi wedi'i gael?

Cyfoethog iawn o ran diwylliant, a'r bobol yn gynnes a chroesawgar. I mi, fu'n darlithio am dair blynedd ar hugain ar Fwyd a Maeth, roedd o'n brofiad arbennig cael mynd i'r Hufenfa. Weles i erioed gyment o gaws...! A hefyd roeddw'n i wedi breuddwydio llawer am gael cerdded ar hyd Llwybr y Pererinion ac mi rydw i bellach wedi cael gwireddu'r breuddwyd hwnnw. Wrth gwrs, i drigolion Porth Madryn yn fwy na neb, roedd cael gweld olion Castell Madryn yn brofiad hynod. Hen dro mai dim ond adfeilion sydd ar ôl.

A Nant Gwyrtheyrn?

Nant Gwyrtheyrn. Mi aeth y meddwl i grwydro yno, wyddoch chi, meddwl am y mamau...ac am y teuluoedd bach oedd yn arfer byw yno...meddwl am y noson cyn i fabi bach gyrraedd a'r pellter...dewrder y gwagedd...mor debyg i wragedd a'mamau Patagonia ar y Paith yn y dyddiau cynnar. Fel mi faswn i'n gadael neges fach: diolch am y bendithion bob dydd, am iechyd a chyfeillgarwch ac am y pethau sy'n werthfawr o ddifri...mae pethau materol yn mynd.

Ond wnawn ni byth anghofio'r cyfeillgarwch a'r croeso rydyn ni wedi'i brofi yma. O blith yr holl argraffiadau: y peth gorau rydw i wedi'i weld a'i deimlo yn ystod yr wythnos yma ydi gweld y plant yn Ysgol Nefyn. Alla i byth anghofio: roeddan nhw fel arian byw, mor fywiog a hapus wrth weithio a chwarae. Ac mi hoffwn i dalu teyrnged i'r Prifathro a'r athrawon am eu gwaith rhagorol.

Ond mi roesoch chi ryw beth hynod i'r disgyblion hefyd. Mi fydd pob plentyn oedd yn y Seremoni Gefellio yn cofio'r achlysur, yn bendifaddau i chi.

Yn cofio rhyw bobol fawr yn siarad mewn rhyw iaith ddigri, wahanol! Ond y bobol ifanc ydi'r dyfodol, a gobeithio y bydd 'na gyfnedid, a phobl ifanc o Nefyn a'r cylch yn mynd draw i Buerto Madryn i ddilyn cyrsiau maes o law, a gwneud y cylch gefellio yn gyflawn felly. Ac oedolion hefyd, wrth gwrs, rhai falle i ddod o hyd i ddisgynyddion teuluoedd a fudodd i Batagonia o Benrhyn Llŷn ganrif a mwy yn ôl.

Diolch yn fawr.

Holwraig: Meinir Pierce Jones



Y cytundeb rhwng Nefyn a Phorth Madryn yn Medi 1998



Tŷ/ Casa Toschke, Stryd Domecq García 241, Porth Madryn (9120), Chubut